Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH 029 2043 1700 029 2043 1701
www.wcva.org.uk 0800 2888 329

Gwedd newydd ar hyfforddiant i grwpiau gwirfoddol - ledled Cymru

Mae mudiadau gwirfoddol ledled Cymru ar fin dod yn fwy hunangynhaliol diolch i raglen hyfforddi gynhwysfawr sydd wedi'i hanelu at gryfhau corff o fudiadau sydd eisoes yn ffynnu.

Mae WCVA a'r rhwydwaith o gynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli wedi sefydlu Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru, rhaglen hyfforddi genedlaethol a fydd yn helpu mudiadau i ddelio â materion hanfodol megis dod o hyd i gyllid a rheoli asedau.

Caiff y rhaglen ei lansio'r mis yma ac mae'n cynnig 54 o gyrsiau - bydd rhai yn gyrsiau undydd ac eraill yn hanner diwrnod - a fydd yn cael eu cyflwyno gan aelodau o staff WCVA a chynghorau gwirfoddol sirol, a bydd rhai mudiadau'n dod i mewn i ddarparu hyfforddiant yn rhai o'r meysydd arbenigol a nodwyd hefyd. Dim ond £20 neu lai y dydd yw cost y cyrsiau - sy'n golygu eu bod o fewn cyrraedd grwpiau gwirfoddol mawr a bach.

Dywedodd Kate Thomas, Rheolwraig Hyfforddiant WCVA: 'Mae'n amlwg er bod cyfoeth o hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r sector, prin fu'r cysondeb o ran darparu hyfforddiant craidd i gefnogi grwpiau gwirfoddol i sefydlu a datblygu eu mudiad; cefnogi staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr; codi arian; rheoli eu hasedau; a darparu gwasanaethau gwell.

'Bydd Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru yn darparu rhaglen fforddiadwy o gyrsiau y mae eu hansawdd wedi cael eu sicrhau mewn ardaloedd lleol a rhanbarthol ledled Cymru.'

Cynhelir y cyrsiau ledled Cymru a byddant yn edrych ar faterion megis ffurfioli mudiadau, trefnu pwyllgor, monitro a gwerthuso gwaith mudiad, manteisio i'r eithaf ar TG a gweithio gydag eraill.

Ceir sesiynau hyfforddi hefyd mewn sgiliau cyfathrebu effeithiol; gweithio gyda'r sector statudol a gwirfoddoli; penodi ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli; cyflogi a rheoli pobl; a chanfod a rheoli arian.

- I gael rhagor o wybodaeth am gyrsiau, dyddiadau a lleoliadau, cysylltwch â'ch cyngor gwirfoddol sirol lleol, neu tarwch olwg ar www.coursesforcommunities.org.uk.

Cynhadledd Cyfraith Elusennau fis Mai

Caiff Cynhadledd Cyfraith Elusennau Cymru 2008 ei chynnal ar 13 Mai yng Ngwesty'r Angel yng Nghaerdydd.

Mae rhaglen eleni'n cyflwyno nifer o newidiadau gan gynnwys rhagor o ddewisiadau gweithdy, a thrafodaeth panel lle gall cynadleddwyr gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig ymlaen llaw neu eu codi'n uniongyrchol o'r llawr.

Bydd Andrew Hind, Prif Weithredwr y Comisiwn Elusennau'n cyflwyno'r Prif Araith ar fudd cyhoeddus ac mae'r diwrnod hefyd yn cynnwys sesiwn ar: ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol; gosod a llogi eiddo; Y Ddeddf Elusennau a Chwmnïau; gwefannau a'r gyfraith; ywybodaeth ddiweddaraf am gyflogaeth, a llawer mwy.

Mae copi o'r rhaglen a'r ffurflen bwcio ar gael yn y copi hwn o Rhwydwaith Cymru. Am ragor o gopiau, cysylltwch aˆ Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu ebostiwch help@wcva.org.uk

Mae llefydd yn llenwi yn gyflym felly archebwch eich lle yn gynnar.

Dod o hyd i'r gymysgedd cyllido gywir

Mae Cyllid Cynaliadwy Cymru WCVA yn gallu cynnig hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig i swyddogion Cymunedau yn Gyntaf er mwyn darparu cyngor am gyllido a chefnogaeth i ddatblygu.

Os ydych chi'n helpu eraill i archwilio eu hopsiynau o ran cyllido ac ariannu, gallwn gynnig hyfforddiant am yr amrywiol offerynnau a thechnegau sydd ar gael i'ch cynorthwyo wrth eich gwaith. Gall Cyllid Cynaliadwy Cymru eich helpu i ddeall mwy am gyllid cynaliadwy a sut i gynorthwyo eraill i weithio tuag at gynaliadwyedd ariannol.

A wnewch fynegi eich diddordeb drwy gysylltu â'r llinell gymorth Cymunedau yn Gyntaf ar 0800 587 8898 neu drwy anfon e-bost at enquiries@communitiesfirst.info, gan roi 'Hyfforddiant SFC ' ar frig y neges. Gan fod Cyllid Cynaliadwy Cymru yn cael ei gefnogi gan y Gronfa Loteri Fawr, darperir yr hyfforddiant hwn am bris gostyngol o £10 y pen.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 🖷 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Gwasanaethau cyflogres ar gyfer y sector

Aw cyflogres eich mudiad yn cynyddu'n raddol? Ydych chi'n gyflogwr newydd sydd ar fin derbyn eich cyflogai cyntaf? Os ydych chi, efallai yr hoffech wybod mwy am Gyswllt Tâl - WCVA.

Yn dilyn llu o newidiadau yn y ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y gyflogres, mae nifer o fudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol yn defnyddio corff allanol i weithredu eu dyletswyddau o ran talu eu gweithwyr.

Cyswllt Tâl - WCVA yw canolfan gweinyddu cyflogresi WCVA, ac mae'n gwasanaethu dros 70 o fudiadau. Mae nifer o'r mudiadau hyn yn ymddiried holl weinyddiaeth eu cyflogres i Gyswllt Tâl WCVA, gydag eraill ond yn cael cymorth gyda thasgau llai, mwy penodol.

Dechreuodd Cyswllt Tâl WCVA fel prosiect marchnad lafur drosiannol a reolid gan WCVA i roi sgiliau newydd i bobl economaidd anweithgar, yn ogystal â chymwysterau gweinyddu cyflogres yr oedd y diwydiant yn eu cydnabod.

Gymaint oedd ei lwyddiant, er bod y prosiect MLD wedi dod i ben, mae Cyswllt Tâl WCVA yn dal i ffynnu, ac mae bellach yn fenter annibynnol sydd â chleientiaid ym mhob cwr o Gymru.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Cynhyrchu papurau cyflog ac adroddiadau cyfnodol
- Prosesu gweithwyr sy'n dechrau ac yn gorffen (a'r P45 cysylltiedig)
- Talu cyflogau, YG a Thalu wrth Ennill drwy BACS
- E-ffeilio ffurflenni blynyddol
- Rhoi drwy'r Gyflogres

Dywed Peter Waddington, Goruchwyliwr Cyswllt Tâl - WCVA: 'Mae'r flwyddyn ariannol newydd yn dechrau'r mis nesaf, felly mae'n amser gwych i chi gysylltu â ni os hoffech chi wybod mwy am ein gwasanaethau.

'Gyda'n profiad o ddelio â mudiadau gwirfoddol, rydym yn credu ein bod yn deall ac yn cydymdeimlo â'r problemau a wynebant, ac rydym yn teimlo bod ein strwythur prisio'n adlewyrchu hynny.'

Os ydych chi'n cyflogi staff am y tro cyntaf, neu os hoffech chi wybod mwy am wasanaethau Cyswllt Tâl - WCVA, cysylltwch â Peter Waddington ar 01745 357588 i gael sgwrs anffurfiol, neu anfonwch neges e-bost at pwaddington@wcva.org.uk.

Mwy o gyfleoedd i ddal y byg cyllid

Gall sicrhau eich bod yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf ym maes cyllid fod yn gamp weithiau. Mae nifer o gyfleoedd cyllido a nawdd ar gael ond pa rai sy'n briodol i'ch mudiad chi? Mae Cyllid Cynaliadwy Cymru yn cynnig cymorth a hyfforddiant ymarferol i fudiadau gwirfoddol a chymunedol ledled Cymru sydd â diddordeb mewn datblygu dull cyllido cynaliadwy.

Mae'r cynllun yn arfogi mudiadau gyda sgiliau a gwybodaeth er mwyn sicrhau a chynnal yr adnoddau sydd eu hangen arnynt yn y tymor hir trwy arallgyfeirio 'cymysgedd' eu cyllid.

Mae'r cynllun yn arfogi mudiadau gyda sgiliau a gwybodaeth er mwyn sicrhau a chynnal yr adnoddau sydd eu hangen arnynt yn y tymor hir trwy arallgyfeirio 'cymysgedd' eu cyllid.

Cymerir enwau yn awr ar gyfer rhaglen hyfforddiant Cyllid Cynaliadwy Cymru yn y gwanwyn/yr haf drwy ddesg gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu help@wcva.org.uk

- Ennill - sut i ddatblygu sylfaen incwm gynaliadwy drwy fasnachu a gwneud gwaith contract

13 Mai 2008, Aberystwyth
22 Mai 2008, Pen-y-bont ar Ogwr

- Cyllid benthyca a datblygu ar sail asedau - sut y gall y rhain eich helpu i ddod yn fwy ariannol gynaliadwy

3 Mehefin 2008, Dolgellau
12 Mehefin 2008, Caerdydd

- Rhoi a chodi arian cyhoeddus - deall mwy ar godi arian a rhoi mewn ffordd dreth-effeithiol

15 Ebrill 2008, Caernarfon
24 Ebrill 2008, Y Drenewydd

Er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu manteisio ar hyfforddiant Cyllid Cynaliadwy Cymru, mae cynghorau gwirfoddol sirol Cymru yn cynnal y cyrsiau hyfforddi hyn yn eu hardaloedd lleol erbyn hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.sustainablefundingcymru.org.uk/events?diablo.lang=cym

Mae Cyllid Cynaliadwy Cymru yn wasanaeth cyngor ariannu ar y cyd rhwng WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol, ac fe'i noddir gan y Gronfa Loteri Fawr. Cynigir yr hyfforddiant hwn am bris gostyngol i fudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio yng Nghymru.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Adroddiad newydd o'r farn bod angen ad-drefnu sylweddol ym maes gwirfoddoli

Bydd mudiadau'r trydydd sector yng Nghymru yn cadw llygad barcud ar adroddiad diweddar ar ddyfodol gwirfoddoli yn Lloegr.

Er nad yw argymhellion yr ymgynghoriad mwyaf manwl a gynhaliwyd erioed yn Lloegr yn berthnasol i Gymru, bydd diddordeb o hyd yn y syniadau a sut y cânt eu rhoi ar waith, neu beidio.

Mae'r ymgynghoriad wedi arwain at alwadau i roi newidiadau sylweddol ar waith er mwyn gwella gwirfoddoli i filiynau o bobl dros y 10 mlynedd nesaf. Yn ôl y Comisiwn ar Ddyfodol Gwirfoddoli, mae biwrocratiaeth, archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a "methiant y sector gwirfoddol i ymateb yn wirioneddol i anghenion amrywiol cymdeithas" yn rhwystr i wirfoddolwyr parod.

Mae adroddiad y Comisiwn, Manifesto for Change, yn beirniadu rhannau o'r sector am fethu â mynd i'r afael â'r problemau y mae pobl anabl, pobl â phroblemau iechyd meddwl, ceiswyr lloches, ffoaduriaid a phobl ddigartref yn dod ar eu traws wrth geisio cofrestru ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli.

Dywed y Comisiwn ei fod wedi clywed tystiolaeth gadarn gan rai tystion fod gwirfoddolwyr anabl yn cael eu gwrthod rhag derbyn cyfleoedd hyfforddi.

Canfu hefyd mewn llawer o grwpiau, nad oedd gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio ddigon ac nad oeddent yn cael cyfleoedd a oedd yn cydnabod nac yn ymateb i'w sgiliau. Mae'n argymell bod angen i fudiadau adolygu eu dulliau gweithio ar unwaith i sicrhau bod cyfleoedd newydd, creadigol a hyblyg ar gael.

Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r ffordd orau y gallai'r Llywodraeth gefnogi gwirfoddoli yw drwy fabwysiadu sefyllfa lle nad ydynt yn ymyrryd gan wrthod y temtasiwn i ddatblygu cynlluniau newydd.

Yn lle hynny, dylai wneud popeth o fewn ei gallu i chwalu rhwystrau i wirfoddoli, darparu cefnogaeth ariannol ychwanegol i ehangu cyfranogaeth mewn gwirfoddoli a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi gwirfoddolwyr a'r sawl sy'n eu rheoli.

Mae'r Comisiwn yn gwneud nifer o argymhellion gan gynnwys:

- Dylai'r Llywodraeth sefydlu gweithgor i ganfod ffyrdd o chwalu rhwystrau i wirfoddoli
- Mae angen hyfforddiant sylfaenol ar bob gwirfoddolwr a rheolwyr gwirfoddolwyr, a bod y sector cyhoeddus yn cael eu hyfforddi i ddeall swyddogaeth gwirfoddoli
- Dylid sefydlu hyfforddwyr gwirfoddoli rhanbarthol er mwyn annog pobl ifanc

Dywedodd Cadeirydd y Comisiwn, Y Farwnes Julia Neuberger: 'Ein gweledigaeth yw cymdeithas lle mae gwirfoddoli yn rhan o'n DNA. Drwy roi o'n hamser, byddwn yn cyfoethogi ein bywydau ni a bywydau pobl eraill.

Ond, ar hyn o bryd, mae gormod o bobl sy'n dymuno gwirfoddoli yn digalonni. Mae llawer o bobl yn cynnig eu hamser a'u sgiliau, ond mae biwrocratiaeth ddiangen yn aml yn eu rhwystro'.

Mae Sue Pickavance, Cyfarwyddwraig Gwirfoddoli WCVA, yn croesawu'r adroddiad ac yn canmol Volunteering England am eu gweledigaeth i'w gomisiynu.

'Er ei fod yn anochel yn datgelu rhai o'r agweddau llai cadarnhaol ym maes rheoli gwirfoddolwyr, mae hefyd yn tynnu sylw at y cyfraniad cadarnhaol sylweddol a wna mudiadau gwirfoddol wrth ddarparu cyfleoedd i wirfoddolwyr. Gallwn ddefnyddio'r awdurdod sydd wrth gefn yr adroddiad i herio rhai o'r arferion mwy biwrocrataidd ac awdurdodaidd sydd wedi ymdreiddio i faes gwirfoddoli dros y blynyddoedd diwethaf.'

Newyddion grant

Mae Cadw wedi lansio cynllun grantiau bach newydd i helpu mannau addoli rhestredig gyda'u gwaith cynnal a chadw parhaus .

Mae grant o hyd at £500 y man addoli ar gael yn ystod y flwyddyn hon ar gyfer ystod eang o fân waith atgyweirio. Derbynnir ceisiadau gan bob enwad/mudiad crefyddol yng Nghymru a bydd y cynllun ar agor tan fis Medi, neu pan fydd y gyllideb wedi cael ei defnyddio, pa un bynnag fydd gyntaf. Mae rhagor o fanylion ar gael gan Claire Jenkins, ffôn 01443 336050, Claire.Jenkins@wales.gsi.gov.uk neu tarwch olwg ar www.cadw.wales.gov.uk.

Gwobr am gartrefi

Mae Gwobr Menywod a Digartrefedd Val Feld yn cydnabod arloesedd a ffyrdd newydd o ymateb i fenywod gydag anghenion tai ledled Cymru.

Gellir defnyddio'r Wobr ar gyfer gwasanaethau, ymchwil weithredol neu ddarn o waith academaidd. Gall unigolion a mudiadau sy'n ymgymryd ag ymchwil i bynciau sy'n ymdrin â menywod, tai a digartrefedd wneud cais. Eleni, mae'r wobr wedi cynyddu o £2,000 i £3,000. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 31 Mai 2008. Am wybodaeth ewch i www.sheltercymru.org.uk/shelter/home/valfeld.asp.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Mudiadau am y gorau

Rhoddir llwyfan i fudiadau gwirfoddol ledled Cymru yn ystod 2008, diolch i Wobrau *Rhwydwaith Cymru* sydd newydd gael eu sefydlu.

Lansiwyd Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*, a gefnogir gan Class Telecommunications, yng nghyhnadledd WCVA. Fe'u sefydlwyd i ddangos gwaith y trydydd sector a rhoi cydnabyddiaeth genedlaethol am lwyddiannau eithriadol. Gall unigolion enwebu eu mudiad eu hunain am wobr a gallant hefyd enwebu mudiadau eraill mewn categorïau ar wahân. Bydd pob mudiad a enwebir yn cael tystysgrif o ganmoliaeth a chyflwynir gwobr i'r enillwyr yng nghinio cynhadledd flynyddol WCVA yn 2008. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 19 Medi 2008.

Gellir cael manylion llawn cynllun Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*, gan gynnwys ffurflenni enwebu, gan Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329. Gellir hefyd eu lawrlwytho oddi ar y wefan www.wcva.org.uk.

Archebwch le yn Sbardun heddiw!

Yr haf hwn, bydd WCVA yn rhedeg Sbardun, y ganolfan gweithredu gwirfoddol yn Eisteddfod Caerdydd a'r Cyffiniau a gynhelir yn ystod wythnos lawn gyntaf mis Awst.

Bydd aelodau WCVA wedi derbyn taflen yn hysbysebu'r pafiliwn, ac rydym yn gobeithio y bydd gennym eleni ganolfan fyrlymus a fydd yn llwyfan i grwpiau lleol a chenedlaethol sydd eisiau cael sylw ar faes yr Eisteddfod.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi croesawu gwleidyddion, enwogion a pherfformwyr i Sbardun, a llynedd, y siaradwr gwadd yn y digwyddiad agoriadol oedd y Prif Weinidog, Rhodri Morgan.

Am ragor o wybodaeth ynglyn ag ymuno a ni yn Sbardun, ebostiwch sbardun@wcva.org.uk.

Cymunedau ffydd yn cyfrif

Mae poblogaeth cymunedau ffydd yng Nghymru'n newid yn barhaus. Er bod rhai enwadau Cristnogol hanesyddol yn cau adeiladau, y mae rhai enwadau newydd yn tyfu ac y mae nifer y cynulleidfaoedd sydd heb fod yn Gristnogion yn parhau, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.

Mewn arolwg diweddar, canfuwyd bod dros 4,400 o gymunedau ffydd yng Nghymru ac y mae dros ddwy ran o dair ohonynt yn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl yn eu hardaloedd lleol. Cyflogir 1,400 o bobl ac y mae dros 42,000 o wirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser i ddarparu'r gweithgareddau hyn. Mae cymunedau ffydd hefyd yn darparu dros 2,400 o fannau i grwpiau eraill gyfarfod, yn croesawu 2.5 miliwn o dwristiaid bob blwyddyn ac yn cyfrannu dros £102 miliwn i economi Cymru.

Gellir gweld y ffigurau hyn mewn adroddiad newydd *Ffydd yng Nghymru: Cyfrif i'n Cymunedau* a lansiwyd yng Nghaerdydd ar 11 Mawrth. Cafodd yr ymchwil, a oedd yn cynnwys pob prif grwp ffydd yng Nghymru, groeso gan Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, a ddywedodd: 'Y mae cymunedau ffydd wedi chwarae rôl allweddol yn hanes Cymru a hyd yn oed heddiw maent yn cynnig ystod o wasanaethau hanfodol sy'n ategu ac yn gwella gwaith y llywodraeth. Bydd yn sail i fwy o gydweithio rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chymunedau ffydd er mwyn cyflawni'r amcan sy'n gyffredin rhyngom, sef Cymru Well i bawb.'

Arweiniwyd yr ymchwil gan Gweini, Cyngor y sector gwirfoddol Cristnogol yng Nghymru, mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Fe'i hariannwyd gan Gronfa Syniadau Newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sefydliad Lloyds TSB a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol drwy'r Gronfa Meithrin Gallu Cymunedau Ffydd, a weinyddir gan y Sefydliad Datblygu Cymunedol.Mae copïau o'r adroddiad ar gael o wefannau Gweini a WCVA (www.gweini.org.uk) neu www.wcva.org.uk).

Bydd rhifynau nesaf yr atodiad cenedlaethol hwn gan WCVA ar gael ar ddiwedd misoedd Mai, Gorffennaf a Thachwedd 2008.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr *Atodiad Cenedlaethol* gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.